BookTrust
Getting children reading

# Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar: Pam mae dechrau darllen ar y cyd yn bwysig a rôl Dechrau Da Babi

## Ymchwil gyda theuluoedd o gefndiroedd incwm isel yn y DU

## Cyflwyniad

**Mae ein dadansoddiad newydd yn dynodi bod teuluoedd sy'n dechrau rhannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd yn gynnar yn fwy tebygol o ddatblygu arfer darllen ar y cyd hirsefydlog. Mae hefyd yn dangos rôl bwysig Dechrau Da Babi, cynnig BookTrust ar gyfer pob plentyn 0-12 mis oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, o ran helpu teuluoedd i ddechrau eu teithiau darllen yn gynnar.**

**Mae gwaith ymchwil ehangach yn dangos bod cael teuluoedd yn darllen gyda'i gilydd o'r adegau cynharaf yn sicrhau manteision unigryw ar unwaith a hirdymor. Mae darllen ar y cyd cynnar yn cynorthwyo closio rhwng plant a'u rhieni, yn ysgogi datblygiad yr ymennydd ac yn gwella llesiant mewn teuluoedd. Mae'n helpu plant i gyrraedd nodau lleferydd, cyfathrebu, cyfathrebu, iaith a datblygiad eraill cynnar.** **Darllen mwy am fuddion darllen.**

## Dull ymchwil

Mae ffigurau yn y ddogfen hon yn manteisio ar ein dadansoddiad newydd o ddata Arolwg Teuluoedd BookTrust. Cynhaliwyd yr astudiaeth ar-lein hon o 2,148 o rieni a gofalwyr plant 0–7 oed sy'n byw ar aelwydydd incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Mae'r briff hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth o'n gwerthusiad dulliau cymysg o Dechrau Da Babi 2021-2023 o fwy na 500 o rieni a gofalwyr plant 0-1 oed ar draws y tair gwlad a'u llenyddiaeth ymchwil academaidd ehangach.

Sylwer: rydym yn defnyddio'r term 'teuluoedd incwm isel' i ddynodi'r rhai sy'n byw mewn tlodi cymharol fel y diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

## Ynglŷn â'r briff hwn

Mae ein dadansoddiad yn tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae darllen ar y cyd cynnar yn ei chael ar ddatblygu arferion darllen hirdymor mewn teuluoedd. Mae'n atgyfnerthu'r angen i gynorthwyo teuluoedd i rannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd o'r adegau cynharaf mewn plentyndod.

Gellir darllen briffiau ymchwil newydd eraill o'n cyfres Arferion Darllen mewn Plentyndod Cynnar yma: **Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar**, **Swyddogaeth 'dylanwadwyr darllen' lluosog o ran cefnogi teithiau darllen plant**, a **Cefnogi cylch o ddarllenwyr o genhedlaeth i genhedlaeth**.



## Beth mae'r gwaith ymchwil hwn yn ei ddweud wrthym?

**Pwysigrwydd dechrau darllen ar y cyd yn gynnar ar gyfer arferion darllen tymor hwy a datblygiad plant.**

Rydym yn gwybod bod darllen ar y cyd yn cyrraedd ei anterth pan fo plant rhwng dwy a phedair blwydd oed, ond mae amlder darllen i blant yn feunyddiol ar ôl pedair oed yn lleihau'n sylweddol ac yn parhau i ddirywio trwy gydol plentyndod (gweler **Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar**).

Mae ein dadansoddiad newydd yn dangos mai'r cynharaf y bydd teuluoedd yn dechrau rhannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd, y mwyaf tebygol yw hi y parheir i ddarllen i blant yn feunyddiol y tu hwnt i bedair oed. Parhawyd i ddarllen yn feunyddiol i 66% o blant a gafodd eu profiad darllen cyntaf yn y flwyddyn gyntaf pan roeddent yn 5-7 oed, o'i gymharu â 49% o'r rhai y darllenwyd iddynt gyntaf yn 12 mis oed neu'n hŷn. Mae dechrau darllen ar y cyd yn gynharach yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn parhau i gael cyfleoedd darllen ar y cyd rheolaidd trwy blentyndod a'r cyfle i fwynhau manteision dwys ac eang darllen.

Roedd **66%** o blant a gafodd eu profiad darllen cyntaf yn y flwyddyn gyntaf yn dal i gael stori wedi'i darllen iddynt pan roeddent yn 5-7 oed, o'i gymharu â

**49%** o'r rhai y darllenwyd iddynt gyntaf yn 12 mis oed neu'n hŷn.




Mae dechrau darllen ar y cyd yn y flwyddyn gyntaf nid yn unig yn bwysig ar gyfer arferion darllen hirdymor ond hefyd yn hanfodol i ddatblygiad plant. Mae corff eang o dystiolaeth yn dangos bod ymennydd plentyn yn dyblu mewn maint yn ystod y flwyddyn gyntaf o fywyd.[1] Dylanwadir yn drwm ar y datblygiad hwn gan ansawdd y berthynas rhwng plant a'u rhieni a gofalwyr, a all gael effeithiau hirdymor ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, a gwybyddol plant.[2]

Mae darllen ar y cyd yn y flwyddyn gyntaf yn rhoi hwb i natur wresog a chadarnhaol rhieni, gan alluogi rhieni a gofalwyr i ddarparu'r gofal magwrol i blant sydd ei angen i ffurfio ymlyniadau cadarnhaol.[3]

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod darllen ar y cyd yn gwella sgiliau lleferydd, cyfathrebu ac iaith plant 0-12 mis oed.[4]

**Effeithiau Dechrau Da Babi ac ymarferwyr darparu ar gael teuluoedd i ddechrau darllen ar y cyd yn gynnar.**

Mae Dechrau Da Babi wedi cynorthwyo teuluoedd â babanod newydd-anedig ers dros 25 mlynedd. Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith eang o weithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol i ddod â llyfrau a gweithgareddau rhyngweithiol chwareus i fabanod newydd-anedig, gan danio eiliadau darllen cynnar mewn teuluoedd. Bob blwyddyn, mae ymwelwyr iechyd, llyfrgelloedd, cofrestryddion, a llawer o weithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol eraill yn rhannu mwy na hanner miliwn o becynnau Dechrau Da Babi, gan gyrraedd 90% o'r holl fabanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr.

**Mae ein canfyddiadau yn dangos bod cysylltiad cadarnhaol rhwng teuluoedd yn derbyn Dechrau Da Babi a pha un a ydynt yn dechrau rhannu llyfrau a straeon yn y flwyddyn gyntaf.**

Mae Dechrau Da Babi yn darparu mynediad gwerthfawr i deuluoedd at lyfrau o'r adegau cynharaf, yn rhoi hwb i hyder rhieni, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiadau darllen.

> “Ni fyddwn wedi dechrau darllen gyda fy mhlant hŷn tan eu bod tua dyflwydd oed. Fe wnaeth y pecyn Dechrau Da Babi i mi feddwl efallai fy mod yn ei adael braidd yn hwyr. Ac fe wnes i roi cynnig arno yn gynharach pan roedd fy merch yn dri mis oed, ac fe wnaeth weithio, oherwydd bellach yn ddyflwydd oed, mae wrth ei bodd gyda'i llyfrau ac yn siarad mor dda.”
> **Rhiant, De-ddwyrain Lloegr**

Dechreuodd 77% o rieni a dderbyniodd eu pecynnau Dechrau Da Babi pan roedd eu plant yn 0-12 mis oed ddarllen gyda'i gilydd yn y flwyddyn gyntaf.

Mae 86% o rieni a gofalwyr a ymatebodd i'n arolwg gwerthuso Dechrau Da Babi yn dweud bod y llyfrau a oedd wedi'u cynnwys yn y pecyn ymhlith y cyntaf yr oeddent yn berchen arnynt ar gyfer eu plentyn.

Mae 72% o rieni a gofalwyr yn dweud bod Dechrau Da Babi wedi eu gwneud i deimlo'n fwy hyderus am ddarllen gyda'u plant.

Mae 68% o rieni a gofalwyr yn dweud ei fod wedi eu cymell i ddarllen a rhannu straeon mwy gyda'u plant.






**Mae ein canfyddiadau yn dangos bod y rhyngweithiadau y mae teuluoedd yn eu cael gyda gweithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol yn cael effaith bwysig ar ddarllen mewn teuluoedd. Pan fydd ymwelwyr iechyd a gweithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol eraill yn annog rhieni a gofalwyr i rannu straeon ac yn dangos iddynt sut i'w wneud, maent yn dod yn fwy brwdfrydig ac yn fwy hyderus.**

Mae dros chwarter (28%) o rieni a gofalwyr yn dweud wrthym nad ydynt yn credu bod darllen gyda'u plant yn hawdd. Er hyn, mae mwyafrif y rhieni a gofalwyr y rhoddwyd cyngor iddynt ar ddefnyddio'r llyfr a'r cynnwys yn y pecyn Dechrau Da Babi gan weithwyr blynyddoedd cynnar proffesiynol yn adrodd effeithiau cadarnhaol y rhaglen ar eu hyder a faint y maent yn ei darllen gyda'i plant.

- **Mae 80% yn dweud bod y pecyn wedi eu gwneud yn fwy hyderus am ddarllen a rhannu straeon gyda'u plant.**
- **Mae 76% yn dweud bod y pecyn wedi eu cymell i ddarllen a rhannu straeon mwy gyda'u plant**

“Canfuais fod yr ymarferydd wir wedi fy helpu gan ei bod yn darparu popeth yn ddwyieithog ac mae'n dda iawn am fod yn gynhwysol a thynnu pawb i mewn. Fe wnaeth defnyddio'r math babi yna o iaith fy helpu i deimlo'n fwy hyderus i gymryd rhan.Roedd hefyd yn gwneud ystumiau, felly mae'n fy helpu i gopïo'r ystumiau hynny pan fyddaf yn darllen gyda'm hwyrion ac wyresau.”
**Nain, Canolbarth Cymru**

## Sut mae BookTrust yn cynorthwyo teuluoedd i ddechrau darllen ar y cyd yn gynnar




Llun 1. Portffolio Blynyddoedd Cynnar BookTrust

Mae Dechrau Da Babi yn elfen graidd o bortffolio Blynyddoedd Cynnar newydd ac esblygol BookTrust. Yn dilyn ymchwil helaeth o'r hyn sy'n gweithio i gael teuluoedd yn darllen gyda'i gilydd ynghyd â theuluoedd o wahanol strwythurau ac amgylchiadau, rydym wedi datblygu ac ymestyn ein cynnig ar gyfer plant 0–6 (gweler Llun 1).

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn yn cael eu dechrau gorau ar eu taith ddarllen. Rydym yn darparu llyfrau a gweithgareddau yn y Gymraeg a'r Saesneg i deuluoedd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Rydym yn darparu pecynnau Anghenion Ychwanegol Bookstart i blant 0–2 oed a 3–5 oed sy'n fyddar, yn ddall neu'n rhannol ddall, ac sydd â chyflyrau sy'n effeithio ar eu sgiliau echddygol manwl. Rydym hefyd yn cynnig llyfrau a chanllawiau Dwy Iaith i deuluoedd sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Yn 2022/23, defnyddiodd 98% o awdurdodau lleol yn Lloegr ein llyfrau a'n hadnoddau anghenion ychwanegol a darparwyd llyfrau dwy iaith gennym mewn dros 30 o wahanol ieithoedd.

> “Mae'r adnoddau yn lliwgar a rhyngweithiol iawn, yn union yr hyn y mae staff a rhieni ei angen i gefnogi ac annog darllen, maent yn cynnig dull gweithredol i rieni fagu perthynas â'u plentyn o oedran cynnar. Mae pob plentyn wrth ei fodd yn gwrando ar straeon, hyd yn oed babanod bach. Mae'r adnoddau yn helpu i gefnogi'r daith ddysgu gan annog plant i ofyn cwestiynau am y byd o'u cwmpas.”
> **Cydgysylltydd Bookstart, Gogledd-ddwyrain Lloegr**

## Ynglŷn â BookTrust

Fel elusen darllen plant fwyaf y DU, rydym eisiau cefnogi pob teulu i sefydlu a chynnal arfer darllen o'r adegau cynharaf. Rydym yn darparu amrywiaeth eang o lyfrau, gweithgareddau a chymorth wedi'u curadu a'u dylunio'n ofalus i roi teuluoedd ar ben ffordd ac i barhau eu teithiau dysgu drwy gydol plentyndod. Diolch i rwydwaith rhyfeddol o bartneriaid, rydym yn gallu cyrraedd teuluoedd lle maen nhw, yn eu cymunedau lleol.

Yn ystod 2022/23, fe wnaethom gynnydd rhagorol o ran cynorthwyo teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar ar eu teithiau darllen, â phwyslais penodol ar deuluoedd incwm isel, yr ydym yn gwybod fydd yn cael ei budd mwyaf o ddarllen.

Darllenwch fwy am effaith BookTrust yn ein **hadroddiad effaith** diweddaraf.



> "Efallai na fydd rhai rhieni yn meddwl am ddarllen. Neu efallai eu bod yn credu bod eu babi'n rhy fach a ddim yn gallu darllen neu siarad eto felly nid oes unrhyw bwynt darllen eto. Mae llyfrau Dechrau Da a'r pecyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt a man cychwyn da sy'n cadarnhau'r ffaith nad yw byth yn rhy gynnar i ddechrau darllen. Mae rhai teuluoedd yn cael yr anogaeth sydd ei hangen arnynt i ddweud "beth am ddechrau darllen gyda'n gilydd nawr?""
>
> **Cydgysylltydd Dechrau Da, Dwyrain Canolbarth Lloegr**

BookTrust
Getting children reading

**Cysylltwch â ni**
queries@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk
Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol @BookTrust

©2024 BookTrust. Rhif elusen: 313343

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

MRS Awards 2023 Winner Activation of Insight

## Cyfeiriadau


1 Knickmeyer, R. C., Gouttard, S., Kang, C., Evans, D., Wilber, K., Smith, J. K., Hamer, R. M., Lin, W., Gerig, G., a Gilmore, J. H. (2008). A structural MRI study of human brain development from birth to 2 years. The Journal of neuroscience : the official journal of the Society for Neuroscience, 28(47), 12176–12182.

2 Winston, R., a Chicot, R. (2016). The importance of early bonding on the long-term mental health and resilience of children. London journal of primary care, 8(1), 12–14.

3 Canfield, C. F., Miller, E. B., Shaw, D. S., Morris, P., Alonso, A., a Mendelsohn, A. L. (2020). Beyond language: Impacts of shared reading on parenting stress and early parent–child relational health. Developmental Psychology, 56(7), 1305–1315.

4 Dowdall, N., Melendez-Torres, G. J., Murray, L., Gardner, F., Hartford, L., a Cooper, P. J. (2020). Shared picture book reading interventions for child language development: A systematic review and meta-analysis. Child development, 91(2), 383-399.

O'Farrelly, C., Doyle, O., Victory, G., a Palamaro-Munsell, E. (2018). Shared reading in infancy and later development: Evidence from an early intervention. Journal of Applied Developmental Psychology, 54, 69-83.